
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 178 (Cy. 58)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Llacio'r Gofynion
Adrodd mewn Ysgolion (Cymru)
(Coronafeirws) 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio nifer o reoliadau er mwyn llacio nifer o ofynion ar ysgolion o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol”) yn nodi'r wybodaeth y mae rhaid i gorff llywodraethu ysgol ei chyhoeddi mewn adroddiad blynyddol. Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd yn y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol ac effaith hynny yw nad yw'n ofynnol cyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021-2022 mewn unrhyw adroddiad blynyddol llywodraethwyr—

- (a) paragraff 6 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (y crynodeb o berfformiad yr ysgol uwchradd),
- (b) paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (nifer absenoldebau awdurdodedig disgyblion a nifer absenoldebau anawdurdodedig disgyblion), ac
- (c) paragraff 8(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (gwybodaeth bellach sy'n ymwneud ag absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig disgyblion).

Mae diwygiad canlyniadol wedi ei wneud hefyd i reoliad 5(2)(a) o'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol mewn perthynas â gofynion ffurf fer yr adroddiad blynyddol.

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion”) yn rhagnodi'r wybodaeth ysgol y mae rhaid i awdurdodau

lleol ac ysgolion ei chyhoeddi mewn prosbectws ysgol. Nid yw pob plentyn wedi mynychu'r ysgol drwy gydol y flwyddyn ac mae llawer o ddisgyblion ac athrawon wedi gweithio ac wedi astudio o bell am gyfnodau. Mae'n debygol y bydd hynny yn cael effaith negyddol ar ansawdd rhywfaint o'r data a reoleiddir gan y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion. Ystyrir yr effeithir yn benodol ar y data ynghylch absenoldebau disgyblion ac felly ni ddylid eu cyhoeddi mewn prosbectws ysgol. Felly, mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaeth yn y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion ac effaith hynny yw datgymhwyso'r rhwymedigaeth ar gorff llywodraethu ysgol i gynnwys mewn unrhyw brosbectws ysgol y data a nodir ym mharagraff 30 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny (data sy'n ymwneud ag absenoldebau disgyblion) mewn cysylltiad â'r flwyddyn ysgol 2021-2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 178 (Cy. 58)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Llacio'r Gofynion
Adrodd mewn Ysgolion (Cymru)
(Coronafeirws) 2022**

Gwnaed 23 Chwefror 2022

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 25 Chwefror 2022

Yn dod i rym 1 Ebrill 2022

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), a thrwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 30(1) a 210(7) o Ddeddf Addysg

-
- (1) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 537(1) gan baragraff 152(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan baragraff 9(1) a (15) o Atodlen 13 i Ddeddf Addysg 2011 a chan O.S. 2010/1158. Diwygiwyd is-adran (4) gan baragraff 37 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997. Diwygiwyd is-adran (7) gan baragraff 152(b) o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan baragraffau 1 a 60 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, gan baragraff 6(1) a (5) o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 2002 a chan O.S. 2010/1158. Diddymwyd is-adrannau (9) a (10) gan Ran 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addysg 2002. Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8(1) a (5) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

2002(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2022.

Diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 1B mewnosoder—

“Datgymhwyso gofynion penodol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021-2022

1C. Ni chaniateir i'r wybodaeth a bennir ym mharagraffau 6, 7 ac 8(b) o Atodlen 2 ac sy'n ymwneud â'r flwyddyn ysgol 2021-2022(4) gael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad llywodraethwyr.”

(3) Yn rheoliad 5(2)(a), ar ôl “rheoliad 1B” mewnosoder “neu 1C”.

Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011

3. Ar ôl rheoliad 1B o Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011(5) mewnosoder—

-
- (1) 2002 p. 32.
- (2) Diwygiwyd is-adrannau (1), (2) a (3) o adran 30 gan adran 103(1)(a) a (b) o Ddeddf Addysg 2005 (p. 18). Diwygiwyd is-adran (7) o adran 210 gan adran 21(1) a (3)(c)(i) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 o Ddeddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Am y diffiniadau o “prescribed” a “regulations” gweler adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002.
- (3) O.S. 2011/1939 (Cy. 207), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2013/1561 (Cy. 142), O.S. 2014/2677 (Cy. 265), O.S. 2018/766 (Cy. 153), O.S. 2020/729 (Cy. 164) ac O.S. 2021/612 (Cy. 163).
- (4) Am y diffiniad o “school year” gweler adran 579 o Ddeddf Addysg 1996. Mewnosodwyd y diffiniad gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.
- (5) O.S. 2011/1944 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/766 (Cy. 153), O.S. 2020/729 (Cy. 164) ac O.S. 2021/612 (Cy. 163).

“Datgymhwyso dyletswyddau penodol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2021-2022

1C. Ni chaniateir i'r wybodaeth a bennir ym mharagraff 30 o Atodlen 3 ac sy'n ymwneud â'r flwyddyn ysgol 2021-2022⁽¹⁾ gael ei chynnwys mewn unrhyw brosbectws ysgol.”

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion

Cymru

23 Chwefror 2022

⁽¹⁾ Am y diffiniad o “school year” gweler adran 579 o Ddeddf Addysg 1996. Mewnosodwyd y diffiniad gan baragraff 43 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997.